Senedd Cymru
**Business Committee**

# Diwygio'r Rheolau Sefydlog:

## Categorïau o Aelodau

Chwefror 2026

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), y Pwyllgor Busnes sy'n gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud neu ddiwygio'r Rheolau Sefydlog.

Mae'r adroddiad hwn yn argymell diwygiadau i amrywiol Reolau Sefydlog i adlewyrchu'r ffaith y caiff pob Aelod ei ethol yn yr un ffordd yn dilyn gweithredu Rhannau 1 a 2 o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024. Bydd hyn yn golygu na fydd dau gategori gwahanol o Aelodau mwyach, sef Aelod etholaeth ac Aelod rhanbarthol.

Os cânt eu derbyn, bydd y newidiadau arfaethedig yn dod i rym ar ddechrau'r Senedd nesaf.

Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r cynigion i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog a nodir yn Atodiad A. Mae'r Rheolau Sefydlog diwygiedig, os cânt eu cymeradwyo, yn Atodiad B.

# Cynnwys

**1. Cefndir ........ 3**

**2. Y Rheolau Sefydlog presennol ........ 4**

Rheol Sefydlog 1.10 a Rheol Sefydlog 1 – Atodiad yr Aelodau ........ 4

**3. Trafodaethau'r Pwyllgor Busnes ........ 5**

Rheol Sefydlog 1.10 a Rheol Sefydlog 1 – Atodiad yr Aelodau ........ 5

Cyfeiriadau at 'etholaeth' a 'rhanbarthol' ........ 6

Cyfeiriad at adran 36(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ........ 7

**4. Amseru ........ 7**

**5. Penderfyniad ........ 7**

**Atodiad A: Newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog a nodiadau esboniadol ........ 9**

**Atodiad B: Y Rheolau Sefydlog fel y'u diwygiwyd ........ 14**

**Atodiad C: Llythyr gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ........ 17**

# 1. Cefndir

**1.** Mae adran 8 o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 ("Deddf 2004") yn newid system etholiadol y Senedd fel y bydd pob Aelod, yn etholiadau'r Senedd yn y dyfodol, yn cael ei ethol drwy system rhestr gyfrannol gaeedig. Mae hyn yn disodli'r system cynrychiolaeth gyfrannol aelodau cymysg bresennol, lle caiff 40 Aelod eu hethol drwy system y cyntaf i'r felin i gynrychioli etholaethau, a chaiff 20 Aelod eu hethol drwy restrau caeedig i gynrychioli pum rhanbarth.

**2.** Mae adran 10 o Ddeddf 2024 yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") i wneud y canlynol:

- dileu adran 36(6), sy'n darparu bod rhaid i'r Rheolau Sefydlog gynnwys darpariaeth ynghylch (neu ar gyfer gwneud cod neu brotocol am) wahanol rolau a chyfrifoldebau aelodau etholaeth yn y Senedd ac aelodau rhanbarthol yn y Senedd ac na chaniateir i aelodau etholaeth yn y Senedd ddisgrifio'u hunain mewn modd sy'n awgrymu eu bod yn aelodau rhanbarthol ac i'r gwrthwyneb, ac
- yn cyfeirio at 'Aelodau' yn hytrach nag 'Aelodau rhanbarthol' neu 'Aelodau etholaeth', gan adlewyrchu na fydd angen gwahaniaethu mwyach rhwng Aelodau ar sail sut y cawsant eu hethol.

**3.** Felly, mae angen nifer o newidiadau i Reolau Sefydlog y Senedd i adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol yn sgil Deddf 2024. Yn gyffredinol, mae'r newidiadau hyn yn rhannu'n ddau gategori:

- Cyfeiriadau at 'etholaeth' a 'rhanbarthol': bydd angen diweddaru nifer o gyfeiriadau o fewn y Rheolau Sefydlog i adlewyrchu na fydd mwyach ddau fath o Aelodau, ac y bydd pob Aelod yn cael eu hethol yn yr un modd;
- Darpariaeth yn Rheol Sefydlog 1.10 (Rolau a Chyfrifoldebau Gwahanol Aelodau Etholaeth ac Aelodau Rhanbarthol) a'r Atodiad i Reol Sefydlog 1 – Aelodau.

# 2. Y Rheolau Sefydlog presennol

## Rheol Sefydlog 1.10 a Rheol Sefydlog 1 – Atodiad yr Aelodau

**4.** Yn unol ag adran 36(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel yr oedd cyn Deddf 2024), mae Rheol Sefydlog 1.10 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd wneud cod neu brotocol (i'w ddrafftio gan y pwyllgor sy'n gyfrifol am y swyddogaethau a bennir yn Rheol Sefydlog 22[1]) ynghylch rolau a chyfrifoldebau gwahanol Aelodau etholaeth ac Aelodau rhanbarthol.

**5.** Mae Rheol Sefydlog 1.10 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cod neu'r protocol gynnwys darpariaeth yn unol â'r pum egwyddor allweddol ganlynol:

1. mae pob Aelod o dan ddyletswydd i fod yn hygyrch i bobl yr ardaloedd y maent wedi'u hethol i'w gwasanaethu ac i gynrychioli eu buddiannau yn gydwybodol;
2. wrth iddynt droi at eu dewis Aelod, dymuniadau'r etholwyr a / neu fuddiannau'r etholaeth neu'r ardal sydd o'r pwys pennaf;
3. mae gan bob Aelod statws cyfartal;
4. ni ddylai Aelodau gamliwio ar ba sail y maent wedi'u hethol na pha ardal y maent yn ei gwasanaethu; a
5. ni ddylai Aelod ymdrin ag achos etholaeth neu fater etholaeth nad yw o fewn ei etholaeth neu ei ranbarth (yn ôl fel y digwydd), oni bai y cytunwyd ar hynny ymlaen llaw.

**6.** Mae Rheol Sefydlog 1.10 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod y cod neu'r protocol yn cynnwys darpariaeth yn unol â'r Atodiad i Reol Sefydlog 1 (sy'n rhestru'r darpariaethau y mae rhaid eu cynnwys yn y cod neu'r protocol).

**7.** Mae'r darpariaethau a restrir yn yr Atodiad yn cynnwys materion megis diogelu hawl etholwr i droi at unrhyw un neu bob un o'r Aelodau sy'n ei gynrychioli, hysbysu Aelodau gan Gomisiwn y Senedd am yr ysgolion yn eu hardal sy'n ymweld yn swyddogol â'r Senedd, a sicrhau bod gan unrhyw Aelod sy'n cynrychioli ardal hawl i godi mater gyda'r aelod perthnasol o'r llywodraeth ar ran etholwr.

[1] Ar hyn o bryd, y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

**8.** O ganlyniad i ddileu adran 36(6) o Ddeddf 2006 gan Ddeddf 2024, ni fydd y gofyniad statudol i'r Rheolau Sefydlog wneud darpariaeth ynghylch (neu ar gyfer gwneud cod neu brotocol am) rolau a chyfrifoldebau Aelodau etholaeth a rhanbarthol yn bodoli mwyach (pan fydd Rhan 1 a 2 o Ddeddf 2024 yn cael effaith - yn yr etholiad cyffredinol nesaf ar ôl 6 Ebrill 2026).

# 3. Trafodaethau'r Pwyllgor Busnes

## Rheol Sefydlog 1.10 a Rheol Sefydlog 1 – Atodiad yr Aelodau

**9.** Nid yw'r pum egwyddor allweddol y mae rhaid darparu ar eu cyfer yn y cod neu'r protocol yn unol â'r Rheolau Sefydlog, a'r darpariaethau a restrir yn yr Atodiad i Reol Sefydlog 1, i gyd yn seiliedig ar y ffaith bod dau fath o Aelod. Er enghraifft, mae darpariaeth 2 yn yr Atodiad i Reol Sefydlog 1 yn darparu "i'r Aelodau ymgymryd â mater sy'n effeithio ar yr etholaeth neu'r rhanbarth y'u hetholwyd iddi neu iddo gan sicrhau cwrteisi ar yr un pryd o ran materion sy'n effeithio ar fwy nag un etholaeth." Er bod rhan gyntaf y ddarpariaeth hon yn ymwneud yn uniongyrchol â'r ffaith bod Aelodau etholaeth a rhanbarthol, mae'r ail ran yn cyfeirio at gwrteisi yn cael ei ddangos ar faterion sy'n effeithio ar fwy nag un etholaeth, ac felly gall barhau'n berthnasol i Seneddau'r dyfodol.

**10.** Gellid ystyried, felly, y byddai rhai agweddau ar y Rheolau Sefydlog hyn yn parhau i fod yn berthnasol mewn Senedd yn y dyfodol lle nad oes dau gategori o Aelodau mwyach.

**11.** Ysgrifennodd y Pwyllgor Busnes at y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar 6 Rhagfyr 2024 i ofyn iddo adolygu'r Rheolau Sefydlog hyn a chyflwyno argymhellion sydd yn:

- Ystyried rôl y cod neu'r protocol sy'n ofynnol ar hyn o bryd gan Reol Sefydlog 1.10 (a'r Atodiad) o fewn y fframwaith safonau fel y nodir yn Rheol Sefydlog 22.2(e);
- Pennu pa agweddau (os o gwbl) ar Reol Sefydlog 1.10 a'r Atodiad i'r Rheol Sefydlog y mae'n credu y dylid eu cadw o fewn Rheolau Sefydlog y Seithfed Senedd;
- Awgrymu newidiadau i unrhyw agweddau a gedwir ar y Rheolau Sefydlog hyn, y mae'n credu sy'n angenrheidiol; a

- Chynnig unrhyw elfennau ychwanegol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Rheolau Sefydlog presennol y mae'n credu sy'n angenrheidiol mewn ymateb i:
  - Ei brofiad o gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 22; a'r
  - Newidiadau i'r ffordd y bydd Aelodau'r Seithfed Senedd yn cael eu hethol ac i'r ardaloedd y byddant yn eu cynrychioli.

**12.** Nododd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ei fod yn cefnogi'r egwyddor o gadw gofyniad yn y Rheolau Sefydlog am god sy'n nodi dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Aelodau (gydag addasiadau i adlewyrchu'r newid yn y ffordd y caiff Aelodau eu hethol).

**13.** Darparodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad fersiwn ddiwygiedig o Reol Sefydlog 1.10 a'r Atodiad i Reol Sefydlog 1, gan amlinellu ei newidiadau arfaethedig (a ddangosir yn y Rheol Sefydlog ddiwygiedig ddrafft yn Atodiad C). Mae'r newidiadau arfaethedig yn cadw agweddau perthnasol ar y Rheolau Sefydlog presennol mewn modd effeithiol, gan eu diweddaru i adlewyrchu na fydd dau gategori o Aelodau mwyach.

**14.** Mae'r Rheol Sefydlog ddrafft yn rhoi cyfrifoldeb dros ddrafftio'r cod i'r pwyllgor sy'n gyfrifol am y swyddogaethau a bennir yn Rheol Sefydlog 22. Er mwyn i'r cod a ddrafftiwyd gan y pwyllgor ddod i rym, byddai angen i'r cod gael ei osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo gan y Senedd yn y Cyfarfod Llawn.

**15.** Mae diwygiadau arfaethedig y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i'r Atodiad i Reol Sefydlog 1 hefyd yn cynnwys newid i'r ddarpariaeth 'Gorfodi' y mae rhaid ei chynnwys yn y cod neu'r protocol. Byddai newid arfaethedig y Pwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol i ddarpariaeth gael ei gwneud yn y cod i gwynion yn erbyn Aelodau mewn perthynas â'r cod neu'r protocol gael eu cyfeirio at y Comisiynydd Safonau, yn hytrach na'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, fel y nodir ar hyn o bryd. Mae hyn oherwydd mai'r unig gamau y gallai'r Pwyllgor eu cymryd ar ôl cael cwyn o'r fath fyddai cyfeirio'r mater at y Comisiynydd.

## Cyfeiriadau at 'etholaeth' a 'rhanbarthol'

**16.** Ar wahân i Reol Sefydlog 1.10 a'r Atodiad i Reol Sefydlog 1, mae nifer fach o newidiadau sy'n ofynnol i weddill y Rheolau Sefydlog i adlewyrchu na fydd dau gategori o Aelodau mwyach.

### Cyfeiriad at adran 36(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

**17.** Mae angen newid hefyd i Reol Sefydlog 22.2(i)(e), sy'n nodi swyddogaethau'r pwyllgor sydd â chyfrifoldeb am y swyddogaethau a bennir yn Rheol Sefydlog 22 (y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar hyn o bryd). Mae'r rheol sefydlog bresennol yn cyfeirio at adran 36(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; gan fod adran 36(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi'i hepgor gan adran 10 o Ddeddf 2024, mae angen dileu'r cyfeiriad hwn.

## 4. Amseru

**18.** Mae'n ofynnol i'r newidiadau hyn ddod i rym yn dilyn gweithredu Rhan 1 a 2 o Ddeddf 2024, er mwyn sicrhau bod Rheolau Sefydlog y Senedd yn cydymffurfio'n llawn â'r ddeddfwriaeth, unwaith y daw'r darpariaethau i rym. Yn sgil hyn, cynigir bod y newidiadau yn dod i rym ar ddechrau'r Senedd nesaf.

## 5. Penderfyniad

**19.** Mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig newidiadau i Reol Sefydlog 1.10 a'r Atodiad i Reol Sefydlog 1, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Mae'r newidiadau arfaethedig yn cadw'r agweddau hynny ar y Rheolau Sefydlog presennol sy'n parhau i fod yn berthnasol, gan wneud y newidiadau sydd eu hangen i adlewyrchu y bydd pob Aelod yn cael ei ethol drwy system rhestr gyfrannol gaeedig pan fydd y ddarpariaeth yn Rhan 1 a 2 o Ddeddf 2024 wedi'i rhoi ar waith.

**20.** Mae'r newidiadau hefyd yn cynnwys diwygiad arfaethedig y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i'r Atodiad i Reol Sefydlog 1 a fydd, os caiff ei dderbyn, yn ei gwneud yn ofynnol i'r cod neu'r protocol gynnwys darpariaeth ar gyfer cyfeirio cwynion yn erbyn Aelodau mewn perthynas â'r cod neu'r protocol at y Comisiynydd Safonau, yn hytrach na'r pwyllgor sy'n gyfrifol am y swyddogaethau a bennir yn Rheol Sefydlog 22 (Safonau Ymddygiad), fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae hwn yn welliant 'tacluso', sy'n ceisio adlewyrchu bod rhaid i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad gyfeirio unrhyw gŵyn at y Comisiynydd Safonau ar ôl iddi ddod i law.

**21.** Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig newidiadau ychwanegol i sicrhau bod y Rheolau Sefydlog yn adlewyrchu y bydd pob Aelod yn cael ei ethol yn yr un ffordd.

**22.** Yn olaf, mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig newid i Reol Sefydlog 22.2(i)(e) i ddileu cyfeiriad at adran 36(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Er bod y Pwyllgor Busnes yn cynnig bod cod neu brotocol yn parhau i fod yn ofynnol o dan Reol Sefydlog 1.10, ni fydd yn cael ei wneud mwyach yn unol ag adran 36(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gan fod yr adran hon o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi'i dileu gan Ddeddf 2024.

**23.** Ar 15 Gorffennaf 2025, cytunodd y Pwyllgor Busnes yn ffurfiol i gynnig y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog a nodir yn yr adroddiad hwn. Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r Rheolau Sefydlog newydd arfaethedig yn Atodiad B.

# Atodiad A: Newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog a nodiadau esboniadol

| | |
|---|---|
| **DEHONGLI** | |
| ystyr "Aelod" yw Aelod o'r Senedd ~~a etholwyd naill ai dros un o etholaethau'r Senedd neu dros un o ranbarthau etholiadol y Senedd;~~ | Diwygio'r adran dehongli<br>Mae'r newid i'r dehongliad hwn yn dileu'r cyfeiriad at y dull ethol yn sgil y ffaith y bydd holl Aelodau'r Senedd yn cael eu hethol yn yr un ffordd. |
| **RHEOL SEFYDLOG 1 – Aelodau** | |
| Rolau a Chyfrifoldebau ~~Gwahanol Aelodau Etholaeth~~ ac Aelodau Rhanbarthol | Diwygio'r is-bennawd<br>Mae'r newid i'r is-bennawd hwn yn adlewyrchu bod y Rheol Sefydlog yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau pob Aelod, yn hytrach na rolau a chyfrifoldebau gwahanol Aelodau etholaeth/rhanbarthol. |
| 1.10 Rhaid i'r Senedd wneud cod neu brotocol, i'w ddrafftio gan y pwyllgor sy'n gyfrifol am y swyddogaethau a ragnodir yn Rheol Sefydlog 22, ~~yn unol ag adran 36(6) o'r Ddeddf,~~ ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau ~~gwahanol~~ | Diwygio'r Rheol Sefydlog |

| | |
|---|---|
| Aelodau ~~etholaeth ac Aelodau rhanbarthol.~~ Rhaid i'r cod neu'r protocol gynnwys darpariaeth yn unol â'r pum egwyddor allweddol ganlynol a'r Atodiad i Reol Sefydlog 1:<br>(i) mae pob Aelod o dan ddyletswydd i fod yn hygyrch i bobl yr ~~ardaloedd~~etholaeth y maent wedi'u hethol i'w gwasanaethu ac i gynrychioli eu buddiannau'n gydwybodol;<br>(ii) wrth iddynt droi at eu dewis Aelod, dymuniadau'r etholwyr a / neu fuddiannau'r etholaeth neu'r ardal sydd o'r pwys pennaf;<br>(iii) mae gan bob Aelod statws cyfartal;<br>(iv) ni ddylai Aelodau gamliwio ar ba sail y maent wedi'u hethol na pha ~~ardal~~etholaeth y maent yn ei gwasanaethu; a<br>(v) ni ddylai Aelod ymdrin ag achos etholaeth neu fater etholaeth nad yw o fewn ei etholaeth ~~neu ei ranbarth (yn ôl fel y digwydd)~~, oni bai y cytunwyd ar hynny ymlaen llaw. | Mae'r newid i'r Rheol Sefydlog hon yn dileu'r cyfeiriad at adran 36(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a fydd yn cael ei dileu gan Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024; ac yn gwneud y diweddariadau angenrheidiol i adlewyrchu na fydd dau gategori o Aelod mwyach. |
| **RHEOL SEFYDLOG 1 – Aelodau: Atodiad** | |
| Y ddarpariaeth sydd i'w chynnwys yn y cod neu'r protocol a baratoir yn unol â Rheol Sefydlog 1.10 ~~ac yn unol ag adran 36(6) o'r Ddeddf~~<br>**Disgrifio'r Aelodau**<br>1. Darpariaeth i~~'r~~ Aelodau ~~rhanbarthol a'r Aelodau etholaeth eu dd~~disgrifio'u hunain yn gywir ac ar gyfer gofynion ynglŷn â defnyddio adnoddau'r Senedd, er enghraifft, deunyddiau swyddfa.<br>**Ymdrin â Materion Etholaeth/~~Rhanbarth~~**<br>2. Darpariaeth i'r Aelodau ymgymryd â mater sy'n effeithio ar yr etholaeth ~~neu'r rhanbarth~~ y'u hetholwyd iddi ~~neu iddo~~ gan sicrhau cwrteisi ar yr un pryd o ran materion sy'n effeithio ar fwy nag un etholaeth.<br>**Achosion Etholwyr Unigol** | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r newid i'r Rheol Sefydlog hon yn dileu'r cyfeiriad at adran 36(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a fydd yn cael ei dileu gan Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 ac yn adlewyrchu'r ffaith na fydd dau gategori o Aelodau mwyach. Mae hefyd yn newid y geiriad ym mhwynt 3 (i adlewyrchu y bydd nifer o Aelodau yn cynrychioli pob etholaeth), yn dileu'r cyfeiriad at ymholiadau 'ffôn' ym mhwynt 7 (i ehangu ei ddiffiniad ac |

| | |
|---|---|
| 3. Darpariaeth i ddiogelu hawl etholwr i droi at unrhyw un o'r Aelodau a etholir yn ei ~~Aelod~~ etholaeth ~~a/neu unrhyw un o'r pedwar Aelod rhanbarthol a etholwyd yn rhanbarth yr etholwr.~~<br>**Codi Materion gydag Aelod o'r Llywodraeth**<br>4. Darpariaeth i sicrhau bod gan unrhyw Aelod yr hawl i godi mater gyda'r aelod perthnasol o'r llywodraeth ar ran etholwr yn ~~yr ardal (yr etholaeth neu'r rhanbarth)~~ etholaeth y'i hetholwyd iddi.<br>**Aelodau yn Gweithredu yn eu ~~Hardaloedd~~ Hetholaethau**<br>5. Darpariaeth yn adlewyrchu'r disgwyliad y bydd yr Aelodau yn gweithio ledled yr ~~ardal (yr~~ etholaeth ~~neu'r rhanbarth)~~ y'i hetholwyd iddi.<br>**Ymweliadau Ysgolion**<br>6. Darpariaeth ar gyfer hysbysu'r Aelodau am yr ysgolion yn eu hetholaethau sy'n ymweld yn swyddogol â'r Senedd, a'r ymweliadau hynny wedi'u trefnu gan y Comisiwn.<br>**Ymholiadau ~~Ffôn~~**<br>7. Darpariaeth i lywio sut yr ymdrinnir ag ymholiadau i'r Comisiwn ~~ffôn i switsfwrdd y Senedd~~ gan aelodau o'r cyhoedd sy'n ceisio cysylltu ag Aelod.<br>**Staff yr Aelodau**<br>8. Darpariaeth y dylai'r Aelodau sicrhau bod y staff sy'n gweithio iddynt, yn y Senedd ac yn lleol, gan gynnwys eraill sy'n gweithio ar eu rhan gydag etholwyr, yn ymwybodol o Reol Sefydlog 1.10 ac unrhyw god neu brotocol a lunnir o ganlyniad iddi, a'u bod yn gweithredu yn unol â hwy.<br>**Gorfodi**<br>9. Darpariaeth i unrhyw gŵyn yn erbyn Aelod mewn perthynas â'r cod neu'r protocol gael ei chyfeirio at y ~~pwyllgor sy'n gyfrifol am y swyddogaethau a ragnodir yn Rheol Sefydlog 22~~Comisiynydd Safonau. | adlewyrchu y gellir derbyn ymholiadau mewn nifer o fformatau), ac yn egluro pwynt 6 (i nodi bod 'ymweliadau ysgolion' yn cyfeirio at ysgolion o fewn etholaeth Aelod).<br>Mae'r newid i'r Rheol Sefydlog hon hefyd yn disodli 'pwyllgor sy'n gyfrifol am y swyddogaethau a ragnodir yn Rheol Sefydlog 22' gyda 'Comisiynydd Safonau', i'w gwneud yn ofynnol i'r cod neu'r protocol gynnwys darpariaeth ar gyfer cyfeirio cwynion yn erbyn Aelodau mewn perthynas â'r cod neu'r protocol at y Comisiynydd Safonau, yn hytrach na'r pwyllgor sy'n gyfrifol am y swyddogaethau a ragnodir yn Rheol Sefydlog 22. |
| **RHEOL SEFYDLOG 11 – Trefn Busnes** | |

| | | |
|---|---|---|
| Amserlen y Senedd | | Cadw'r is-bennawd |
| 11:10 | Rhaid i amserlenni o dan Reol Sefydlog 11.9 roi sylw i gyfrifoldebau'r Aelodau tuag at y teulu a'r etholaeth ~~neu'r rhanbarth etholiadol~~, ac i'w trefniadau teithio tebygol; ac fel rheol dylent geisio osgoi amserlennu busnes cyn 9.00am neu ar ôl 6.00pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r newid i'r Rheol Sefydlog hon yn dileu'r cyfeiriad at 'rhanbarth etholiadol', gan y bydd pob Aelod yn cynrychioli etholaeth. |
| **RHEOL SEFYDLOG 22 – Safonau Ymddygiad** | | |
| Swyddogaethau | | Cadw'r is-bennawd |
| 22.2(i)(e) | ag unrhyw god neu brotocol a wnaed o dan Reol Sefydlog 1.10 ~~ac yn unol ag adran 36(6) o'r Ddeddf~~; | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r newid i'r Rheol Sefydlog hon yn dileu cyfeiriad at y cod neu'r protocol, a wneir o dan Reol Sefydlog 1.10, yn cael ei wneud "yn unol ag adran 36(6) o'r Ddeddf", gan fod adran 36(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi'i dileu gan adran 10 o Ddeddf 2024. |
| **RHEOL SEFYDLOG 26A – Deddfau Preifat y Senedd** | | |
| Pwyllgorau Biliau Preifat | | Cadw'r is-bennawd |
| 26A.35 | Rhaid i unrhyw Aelod y cynigir ei enw i fod yn aelod o Bwyllgor Bil Preifat roi gwybod i'r Pwyllgor Busnes am unrhyw fuddiant o'r math y cyfeirir ato yn Rheol Sefydlog 26A.34 a hefyd am unrhyw fuddiant personol, a/neu etholaethol neu ~~ranbarthol~~ perthnasol arall sydd ganddo neu, hyd y gŵyr yr Aelod, sydd gan aelod o'i deulu, neu y mae'n disgwyl y bydd ganddo, y gallai eraill ystyried yn rhesymol ei fod yn rhagfarnu ystyriaeth ddiduedd ar y Bil Preifat | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r newid i'r Rheol Sefydlog hon yn dileu'r cyfeiriad at 'neu ranbarthol' sy'n cyfeirio at fuddiannau Aelodau, gan y bydd pob Aelod yn cynrychioli etholaeth; mae hefyd yn |

| | |
|---|---|
| | mewnosod 'a/neu' yn sgil hyn, ac i adlewyrchu y gallai fod gan Aelodau fuddiant personol perthnasol, buddiant etholaethol, neu'r ddau fath o fuddiant y mae rhaid iddynt eu datgan. |
| **RHEOL SEFYDLOG 26B – Deddfau Hybrid y Senedd** | |
| Pwyllgorau Biliau Hybrid | Cadw'r is-bennawd |
| 26B.33 Rhaid i unrhyw Aelod y cynigir ei enw i fod yn aelod o Bwyllgor Bil Hybrid roi gwybod i'r Pwyllgor Busnes am unrhyw fuddiant o'r math y cyfeirir ato yn Rheol Sefydlog 26B.32 a hefyd am unrhyw fuddiant personol, <u>a/neu</u> etholaethol ~~neu ranbarthol~~ perthnasol arall sydd ganddo neu, hyd y gŵyr yr Aelod, sydd gan aelod o'i deulu, neu y mae'n disgwyl y bydd ganddo, y gallai eraill ystyried yn rhesymol ei fod yn rhagfarnu ystyriaeth ddiduedd ar y Bil Hybrid. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r newid i'r Rheol Sefydlog hon yn dileu'r cyfeiriad at 'ranbarthol' sy'n cyfeirio at fuddiannau Aelodau, gan y bydd pob Aelod yn cynrychioli etholaeth; mae hefyd yn mewnosod 'a/neu' yn sgil hyn, ac i adlewyrchu y gallai fod gan Aelodau fuddiant personol perthnasol, buddiant etholaethol, neu'r ddau fath o fuddiant y mae rhaid iddynt eu datgan. |

# Atodiad B: Y Rheolau Sefydlog fel y'u diwygiwyd

**DEHONGLI**

Ystyr **"Aelod"** yw Aelod o'r Senedd.

**RHEOL SEFYDLOG 1 – Aelodau**

Rolau a Chyfrifoldebau Aelodau

1.10 Rhaid i'r Senedd wneud cod neu brotocol, i'w ddrafftio gan y pwyllgor sy'n gyfrifol am y swyddogaethau a ragnodir yn Rheol Sefydlog 22 ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau gwahanol Aelodau. Rhaid i'r cod neu'r protocol gynnwys darpariaeth yn unol â'r pum egwyddor allweddol ganlynol a'r Atodiad i Reol Sefydlog 1:

(i) mae pob Aelod o dan ddyletswydd i fod yn hygyrch i bobl yr etholaeth y maent wedi'u hethol i'w gwasanaethu ac i gynrychioli eu buddiannau'n gydwybodol;

(ii) wrth iddynt droi at eu dewis Aelod, dymuniadau'r etholwyr a / neu fuddiannau'r etholaeth neu'r ardal sydd o'r pwys pennaf;

(iii) mae gan bob Aelod statws cyfartal;

(iv) ni ddylai aelodau gamliwio ar ba sail y maent wedi'u hethol na pha etholaeth y maent yn ei gwasanaethu; a

(v) ni ddylai Aelod ymdrin ag achos etholaeth neu fater etholaeth nad yw o fewn ei etholaeth, oni bai y cytunwyd ar hynny ymlaen llaw.

**RHEOL SEFYDLOG 1 – Aelodau: Atodiad**

Y ddarpariaeth sydd i'w chynnwys yn y cod neu'r protocol a baratoir yn unol â Rheol Sefydlog 1.10

Disgrifio'r Aelodau

1. Darpariaeth i Aelodau ddisgrifio'u hunain yn gywir ac ar gyfer gofynion ynglŷn â defnyddio adnoddau'r Senedd, er enghraifft, deunyddiau swyddfa.

Ymdrin â Materion Etholaeth

2. Darpariaeth i'r Aelodau ymgymryd â mater sy'n effeithio ar yr etholaeth y'u hetholwyd iddi gan sicrhau cwrteisi ar yr un pryd o ran materion sy'n effeithio ar fwy nag un etholaeth.

### Achosion Etholwyr Unigol

3. Darpariaeth i ddiogelu hawl etholwr i droi at unrhyw un o'r Aelodau a etholir yn ei etholaeth.

### Codi Materion gydag Aelod o'r Llywodraeth

4. Darpariaeth i sicrhau bod gan unrhyw Aelod yr hawl i godi mater gyda'r aelod perthnasol o'r llywodraeth ar ran etholwr yn yr etholaeth y'i hetholwyd iddi.

### Aelodau yn Gweithredu yn eu Hetholaethau

5. Darpariaeth yn adlewyrchu'r disgwyliad y bydd yr Aelodau yn gweithio ledled yr etholaeth y'i hetholwyd iddi.

### Ymweliadau Ysgolion

6. Darpariaeth ar gyfer hysbysu'r Aelodau am yr ysgolion yn eu hetholaethau sy'n ymweld yn swyddogol â'r Senedd, a'r ymweliadau hynny wedi'u trefnu gan y Comisiwn.

### Ymholiadau

7. Darpariaeth i lywio sut yr ymdrinnir ag ymholiadau i Gomisiwn y Senedd gan aelodau o'r cyhoedd sy'n ceisio cysylltu ag Aelod.

### Staff yr Aelodau

8. Darpariaeth y dylai'r Aelodau sicrhau bod y staff sy'n gweithio iddynt, yn y Senedd ac yn lleol, gan gynnwys eraill sy'n gweithio ar eu rhan gydag etholwyr, yn ymwybodol o Reol Sefydlog 1.10 ac unrhyw god neu brotocol a lunnir o ganlyniad iddi, a'u bod yn gweithredu yn unol â hwy.

### Gorfodi

9. Darpariaeth i unrhyw gŵyn yn erbyn Aelod mewn perthynas â'r cod neu'r protocol gael ei chyfeirio at y Comisiynydd Safonau.

## RHEOL SEFYDLOG 11 – Trefn Busnes

### Amserlen y Senedd

11.10 Rhaid i amserlenni o dan Reol Sefydlog 11.9 roi sylw i gyfrifoldebau'r Aelodau tuag at y teulu a'r etholaeth, ac i'w trefniadau teithio tebygol; ac fel rheol dylent geisio osgoi amserlennu busnes cyn 9.00am neu ar ôl 6.00pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith.

## RHEOL SEFYDLOG 22 – Safonau Ymddygiad

### Swyddogaethau

22.2(i)(e) unrhyw god neu brotocol a wneir o dan Reol Sefydlog 1.10;

## RHEOL SEFYDLOG 26A – Deddfau Preifat y Senedd

### Pwyllgorau Biliau Preifat

26A.35 Rhaid i unrhyw Aelod y cynigir ei enw i fod yn aelod o Bwyllgor Bil Preifat roi gwybod i'r Pwyllgor Busnes am unrhyw fuddiant o'r math y cyfeirir ato yn Rheol Sefydlog 26A.34 a hefyd am unrhyw fuddiant personol a/neu etholaethol perthnasol arall sydd ganddo neu, hyd y gŵyr yr Aelod, sydd gan aelod o'i deulu, neu y mae'n disgwyl y bydd ganddo, y gallai eraill ystyried yn rhesymol ei fod yn rhagfarnu ystyriaeth ddiduedd ar y Bil Preifat.

### Pwyllgorau Biliau Hybrid

26B.33 Rhaid i unrhyw Aelod y cynigir ei enw i fod yn aelod o Bwyllgor Bil Hybrid roi gwybod i'r Pwyllgor Busnes am unrhyw fuddiant o'r math y cyfeirir ato yn Rheol Sefydlog 26B.32 a hefyd am unrhyw fuddiant personol a/neu etholaethol perthnasol arall sydd ganddo neu, hyd y gŵyr yr Aelod, sydd gan aelod o'i deulu, neu y mae'n disgwyl y bydd ganddo, y gallai eraill ystyried yn rhesymol ei fod yn rhagfarnu ystyriaeth ddiduedd ar y Bil Hybrid.

# Atodiad C: Llythyr gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**
—
**Standards of Conduct Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddSafonau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddSafonau
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddStandards@senedd.wales
senedd.wales/SeneddStandards
0300 200 6565

Y Gwir Anrh. Elin Jones AS, Cadeirydd y Pwyllgor Busnes
Drwy e-bost

17 Ionawr 2025

Rheolau Sefydlog ar gyfer y Seithfed Senedd: Categorïau o Aelodau

Annwyl Elin,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Rhagfyr 2024, a drafodwyd gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad (y Pwyllgor) yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr 2025. Cytunodd y Pwyllgor i gadw'r Cod sy'n ofynnol ar hyn o bryd o dan Reol Sefydlog 1.10 (a'r Atodiad), fel bod gwybodaeth ar gael o hyd am yr hyn a ddisgwylir gan Aelodau o ran eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. Felly, cytunwyd y dylid diwygio Rheol Sefydlog 1.10 a'r Atodiad, ac mae fersiynau glân o'r Rheol Sefydlog a'r Atodiad diwygiedig, yn ogystal â fersiynau sydd â'r newidiadau wedi'u tracio, wedi'u cynnwys mewn atodiad i'r llythyr hwn. Bydd y Cod yn cael ei ddiwygio'n briodol hefyd.

Roedd eich llythyr hefyd yn gofyn i'r Pwyllgor drafod unrhyw elfennau ychwanegol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Rheolau Sefydlog presennol sy'n angenrheidiol ym marn y Pwyllgor mewn ymateb i'w brofiad o gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol, fel y nodir yn Rheol Sefydlog 22. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i dynnu sylw at ymchwiliad presennol y Pwyllgor i gofrestru a datgan buddiannau, a allai arwain at newidiadau i Reolau Sefydlog 2 i 5, yn ogystal â'r ymchwiliad presennol i'r trefniadau adalw, sydd hefyd yn debygol o arwain at newidiadau i'r Rheolau Sefydlog.

Yn gywir,

Hannah Blythyn AS

Cadeirydd
Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Atodiad A – fersiynau sy'n dangos y newidiadau

**Rolau a Chyfrifoldebau ~~Gwahanol Aelodau Etholaeth ac~~ Aelodau Rhanbarthol**

1.10 Rhaid i'r Senedd wneud cod neu brotocol, i'w ddrafftio gan y pwyllgor sy'n gyfrifol am y swyddogaethau a ragnodir yn Rheol Sefydlog 22, ~~yn unol ag adran 36(6) o'r Ddeddf,~~ ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau ~~gwahanol~~ Aelodau etholaeth ~~ac Aelodau rhanbarthol.~~ Rhaid i'r cod neu'r protocol gynnwys darpariaeth yn unol â'r pum egwyddor allweddol ganlynol a'r Atodiad i Reol Sefydlog 1:

(i) mae pob Aelod o dan ddyletswydd i fod yn hygyrch i bobl yr ~~ardaloedd~~etholaeth y maent wedi'u hethol i'w gwasanaethu ac i gynrychioli eu buddiannau'n gydwybodol;
(ii) wrth iddynt droi at eu dewis Aelod, dymuniadau'r etholwyr a / neu fuddiannau'r etholaeth neu'r ardal sydd o'r pwys pennaf;
(iii) mae gan bob Aelod statws cyfartal;
(iv) ni ddylai Aelodau gamliwio ar ba sail y maent wedi'u hethol na pha ~~ardal~~etholaeth y maent yn ei gwasanaethu; a
(v) ni ddylai Aelod ymdrin ag achos etholaeth neu fater etholaeth nad yw o fewn ei etholaeth ~~neu ei ranbarth (yn ôl fel y digwydd),~~ oni bai y cytunwyd ar hynny ymlaen llaw.

**RHEOL SEFYDLOG 1 – Aelodau: Atodiad**

Y ddarpariaeth sydd i'w chynnwys yn y cod neu'r protocol a baratoir yn unol â Rheol Sefydlog 1.10 ~~ac yn unol ag adran 36(6) o'r Ddeddf.~~

**Disgrifio'r Aelodau**

1. Darpariaeth i'r Aelodau ~~rhanbarthol a'r Aelodau etholaeth~~ eu ddisgrifio'u hunain yn gywir ac ar gyfer gofynion ynglŷn â defnyddio adnoddau'r Senedd, er enghraifft, deunyddiau swyddfa.

**Ymdrin â Materion Etholaeth/~~Rhanbarth~~**

2. Darpariaeth i'r Aelodau ymgymryd â mater sy'n effeithio ar yr etholaeth ~~neu'r rhanbarth~~ y'u hetholwyd iddi ~~neu iddo~~ gan sicrhau cwrteisi ar yr un pryd o ran materion sy'n effeithio ar fwy nag un etholaeth.

**Achosion Etholwyr Unigol**

3. Darpariaeth i ddiogelu hawl etholwr i droi at <u>unrhyw un o'r Aelodau a etholi</u>r yn ei ~~Aelod~~ etholaeth ~~a/neu unrhyw un o'r pedwar Aelod rhanbarthol a etholwyd yn rhanbarth yr etholwr.~~

**Codi Materion gydag Aelod o'r Llywodraeth**

4. Darpariaeth i sicrhau bod gan unrhyw Aelod yr hawl i godi mater gyda'r aelod perthnasol o'r llywodraeth ar ran etholwr yn yr ~~ardal (yr etholaeth neu'r rhanbarth)~~ <u>etholaeth</u> y'i hetholwyd iddi.

**Aelodau yn Gweithredu yn eu ~~Hardaloedd~~ <u>Hetholaethau</u>**

5. Darpariaeth yn adlewyrchu'r disgwyliad y bydd yr Aelodau yn gweithio ledled ~~yr ardal (~~yr etholaeth ~~neu'r rhanbarth)~~ y'i hetholwyd iddi.

**Ymweliadau Ysgolion**

6. Darpariaeth ar gyfer hysbysu'r Aelodau am yr ysgolion <u>yn eu hetholaethau</u> sy'n ymweld yn swyddogol â'r Senedd, a'r ymweliadau hynny wedi'u trefnu gan y Comisiwn.

**Ymholiadau ~~Ffôn~~**

7. Darpariaeth i lywio sut yr ymdrinnir ag ymholiadau <u>i Gomisiwn</u> ~~ffôn i switsfwrdd~~ y Senedd gan aelodau o'r cyhoedd sy'n ceisio cysylltu ag Aelod.

**Staff yr Aelodau**

8. Darpariaeth y dylai'r Aelodau sicrhau bod y staff sy'n gweithio iddynt, yn y Senedd ac yn lleol, gan gynnwys eraill sy'n gweithio ar eu rhan gydag etholwyr, yn ymwybodol o Reol Sefydlog 1.10 ac unrhyw god neu brotocol a lunnir o ganlyniad iddi, a'u bod yn gweithredu yn unol â hwy.

**Gorfodi**

9. Darpariaeth i unrhyw gŵyn yn erbyn Aelod mewn perthynas â'r cod neu'r protocol gael ei chyfeirio at y ~~pwyllgor sy'n gyfrifol am y swyddogaethau a ragnodir yn Rheol Sefydlog 22~~ <u>Comisiynydd Safonau.</u>

Atodiad B – fersiynau glân

**Rolau a Chyfrifoldebau Aelodau**

1.10 Rhaid i'r Senedd wneud cod neu brotocol, i'w ddrafftio gan y pwyllgor sy'n gyfrifol am y swyddogaethau a ragnodir yn Rheol Sefydlog 22 ynglŷn â rolau a

chyfrifoldebau gwahanol Aelodau. Rhaid i'r cod neu'r protocol gynnwys darpariaeth yn unol â'r pum egwyddor allweddol ganlynol a'r Atodiad i Reol Sefydlog 1:

(vi) mae pob Aelod o dan ddyletswydd i fod yn hygyrch i bobl yr etholaeth y maent wedi'u hethol i'w gwasanaethu ac i gynrychioli eu buddiannau'n gydwybodol;
(vii) wrth iddynt droi at eu dewis Aelod, dymuniadau'r etholwyr a / neu fuddiannau'r etholaeth neu'r ardal sydd o'r pwys pennaf;
(viii) mae gan bob Aelod statws cyfartal;
(ix) ni ddylai aelodau gamliwio ar ba sail y maent wedi'u hethol na pha etholaeth y maent yn ei gwasanaethu; a
(x) ni ddylai unrhyw Aelod ymdrin ag achos etholaeth neu fater etholaeth nad yw o fewn ei etholaeth, oni bai y cytunwyd ar hynny ymlaen llaw.

**RHEOL SEFYDLOG 1 – Aelodau: Atodiad**

Y ddarpariaeth sydd i'w chynnwys yn y cod neu'r protocol a baratoir yn unol â Rheol Sefydlog 1.10

**Disgrifio'r Aelodau**

1. Darpariaeth i Aelodau ddisgrifio'u hunain yn gywir ac ar gyfer gofynion ynglŷn â defnyddio adnoddau'r Senedd, er enghraifft, deunyddiau swyddfa.

**Ymdrin â Materion Etholaeth**

2. Darpariaeth i'r Aelodau ymgymryd â mater sy'n effeithio ar yr etholaeth y'u hetholwyd iddi gan sicrhau cwrteisi ar yr un pryd o ran materion sy'n effeithio ar fwy nag un etholaeth.

**Achosion Etholwyr Unigol**

3. Darpariaeth i ddiogelu hawl etholwr i droi at unrhyw un o'r Aelodau a etholir yn ei etholaeth.

**Codi Materion gydag Aelod o'r Llywodraeth**

4. Darpariaeth i sicrhau bod gan unrhyw Aelod yr hawl i godi mater gyda'r aelod perthnasol o'r llywodraeth ar ran etholwr yn yr etholaeth y'i hetholwyd iddi.

**Aelodau yn Gweithredu yn eu Hetholaethau**

5. Darpariaeth yn adlewyrchu'r disgwyliad y bydd yr Aelodau yn gweithio ledled yr etholaeth y'i hetholwyd iddi.

**Ymweliadau Ysgolion**

6. Darpariaeth ar gyfer hysbysu'r Aelodau am yr ysgolion yn eu hetholaethau sy'n ymweld yn swyddogol â'r Senedd, a'r ymweliadau hynny wedi'u trefnu gan y Comisiwn.

**Ymholiadau**

7. Darpariaeth i lywio sut yr ymdrinnir ag ymholiadau i Gomisiwn y Senedd gan aelodau o'r cyhoedd sy'n ceisio cysylltu ag Aelod.

**Staff yr Aelodau**

8. Darpariaeth y dylai'r Aelodau sicrhau bod y staff sy'n gweithio iddynt, yn y Senedd ac yn lleol, gan gynnwys eraill sy'n gweithio ar eu rhan gydag etholwyr, yn ymwybodol o Reol Sefydlog 1.10 ac unrhyw god neu brotocol a lunnir o ganlyniad iddi, a'u bod yn gweithredu yn unol â hwy.

**Gorfodi**

9. Darpariaeth i unrhyw gŵyn yn erbyn Aelod mewn perthynas â'r cod neu'r protocol gael ei chyfeirio at y Comisiynydd Safonau.